**Rhif: WG41222**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Adolygiad o Ran L a Rhan F o'r Rheoliadau Adeiladu – Cam 2A

## Newidiadau i Ran L (Arbed Tanwydd ac Ynni) a Rhan F (Awyru) o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau presennol a lleihau'r risg o orgynhesu mewn anheddau newydd

Dyddiad cyhoeddi: 25 Tachwedd 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 17 Chwefror 2021

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL (h) Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Nod y Rheoliadau Adeiladu a'r canllawiau cysylltiedig a nodir mewn Dogfennau Cymeradwy yw sicrhau bod adeiladau yn cyrraedd safonau penodol ar gyfer lefel ofynnol o iechyd, diogelwch, llesiant, cyfleustra a chynaliadwyedd.<br><br>Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â chynigion ar gyfer newidiadau sy'n ymwneud â Rhan L (Arbed tanwydd ac ynni) a Rhan F (awyru) ar gyfer anheddau newydd.<br><br>Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu'n bennaf at gwmnïau, unigolion a'u cyrff cynrychioliadol yn y diwydiant adeiladu ac mewn diwydiannau sy'n gysylltiedig ag adeiladu a'r cyrff rheoli adeiladu sy'n ei gwneud yn bosibl i'r system rheoli adeiladu weithredu. Gall elfennau penodol fod o ddiddordeb i aelodau o'r cyhoedd. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch e-bostio eich ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn i'r canlynol:<br>enquiries.brconstruction@llyw.cymru<br><br>Os byddwch yn ymateb yn ysgrifenedig, nodwch yn glir i ba ymgynghoriad a chwestiynau rydych yn ymateb:<br><br>Dylid anfon ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad canlynol:<br><br>Newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu yng Nghymru ar gyfer anheddau newydd a phresennol, Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru, Caerdydd, CF10 3NQ<br><br>Pan fyddwch yn ymateb, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau p'un a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, ac yn cynnwys:<br>- eich enw,<br>- eich swydd (os yw'n berthnasol),<br>- enw'r sefydliad (os yw'n berthnasol),<br>- cyfeiriad (gan gynnwys cod post),<br>- cyfeiriad e-bost<br>- rhif ffôn cyswllt |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd ar gais.** |

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt** | Ar gyfer unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â thîm Rheoliadau Adeiladu Llywodraeth Cymru drwy e-bostio: enquiries.brconstruction@llyw.cymru<br><br>I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Rheoliadau Adeiladu<br>Llywodraeth Cymru<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Ffôn: 0300 062 8144 |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


**Pennod 1. Cyflwyniad........................................................................................1**

**Cefndir** 1

**Y Pecyn Ymgynghori** 1

**Ymadael â'r UE – Brexit** 2

**Datblygu'r cynigion hyn** 2

**Ystyriaeth Bellach** 3

**Amserlen ar gyfer cyflwyno newidiadau** 3

**Rheoliadau adeiladu** 4

**Pennod 2. Safonau Rhan L ar gyfer Anheddau Presennol .......................................5**

**Cefndir** 5

**Safonau perfformiad ar gyfer adeiladwaith** 5

**Gwelliannau canlyniadol** 8

**Y Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPBD)** 9

**Pennod 3. Newidiadau i Ran F ar gyfer Anheddau Presennol.................................16**

**Cefndir** 16

**Pennod 4. Newidiadau i Ran L ar gyfer Adeiladau Annomestig..............................21**

**Cefndir** 21

**Pennod 5. Lleihau'r Risg o Orgynhesu mewn Anheddau Newydd..........................26**

**Cefndir.....................................................................................................................26**

**Rheoliadau Adeiladu** 27

**Asesu cydymffurfiaeth â Gofyniad S1** 27

**Pennod 6. Trefniadau Trosiannol.........................................................................33**

**Pennod 7. Adborth ar yr Asesiad Effaith..............................................................35**

# Pennod 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Rhwng 19 Rhagfyr 2019 a 12 Mawrth 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad a oedd yn ceisio eich barn ar newidiadau i Ran L (Arbed Tanwydd ac Ynni) a Rhan F (Awyru) o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer anheddau newydd https://llyw.cymru/adolygiad-rhan-l-o-reoliadau-adeiladu)

1.2 Rhoddodd yr ymgynghoriad hwnnw gefndir yr adolygiad ehangach o Ran L, gan nodi sut y bydd yn helpu i gyflawni ein hymrwymiadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a sut mae'r gwaith wedi cael ei wneud yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

1.3 Prif ddiben yr ymgynghoriad hwnnw oedd ceisio barn ar newidiadau arfaethedig i Ran L a Rhan F o'r Rheoliadau Adeiladu ar gyfer cartrefi newydd, a'r canllawiau statudol cysylltiedig (Dogfen Gymeradwy L Cyfrol 1 a Dogfen Gymeradwy F Cyfrol 1). Yn benodol, roedd yn ceisio sicrhau bod cartrefi newydd yn fwy ynni effeithlon a sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol ar gyfer cyflwyno systemau gwresogi carbon isel. Roedd hefyd yn cynnwys newidiadau i Ran L er mwyn ei chysoni ag ail-luniad 2018 o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPBD), a chynigion ar gyfer dull newydd o ymdrin â threfniadau trosiannol. At hynny, ystyriodd yr ymgynghoriad gynigion ar gyfer gwella cydymffurfiaeth a pherfformiad er mwyn sicrhau y caiff gofynion o ran effeithlonrwydd ynni eu bodloni ar lawr gwlad.

1.4 Mae’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwnnw wrthi’n cael eu hadolygu a'r bwriad yw y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ymateb i hyn yn ddiweddarach eleni.

## Y Pecyn Ymgynghori

1.5 Mae'r pecyn ymgynghori hwn yn rhan o ymgynghoriad Cam 2 sy'n dilyn yr ymgynghoriad cychwynnol hwnnw. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ffurfio Rhan A o ymgynghoriad Cam 2 ac mae'n ymdrin yn bennaf ag anheddau presennol, ynghyd â rhai mân newidiadau i adeiladau annomestig. Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

<u>Lleihau'r Risg o Orgynhesu mewn Anheddau Newydd</u>

1.6 Roedd ymgynghoriad Cam 1 yn nodi cynigion i sicrhau bod adeiladau newydd yn fwy ynni effeithlon ac yn fwy thermol effeithlon. Mae tystiolaeth gynyddol bod cartrefi newydd yn wynebu risg o orgynhesu yn ystod yr haf ac y bydd y risg hon yn cynyddu o ganlyniad i welliannau i'w heffeithlonrwydd thermol yn ogystal ag effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar ddulliau mwy cynhwysfawr o ystyried gorgynhesu mewn anheddau newydd.

<u>Newidiadau i Ran L a Rhan F ar gyfer Anheddau Presennol</u>

1.7 Roedd yr ymgynghoriad blaenorol yn nodi'r cynigion ar gyfer anheddau newydd. Fodd bynnag, mae rhannau mawr o'n stoc adeiladau yn cynnwys adeiladau presennol. Er mwyn sicrhau bod adeiladau presennol yn cyfrannu at gyflawni ein hymrwymiadau, mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion ar gyfer gwella

perfformiad ynni mewn adeiladau presennol drwy leihau'r galw am ynni (Rhan L – Arbed Tanwydd ac Ynni), heb effeithio ar iechyd a chysur meddianwyr yr adeiladau hynny (Rhan F – Awyru).

Newidiadau i'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau

1.8 Mae Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu yn rhan o agenda uchelgeisiol ar gyfer effeithlonrwydd ynni yng Nghymru ac fe'i defnyddir i bennu safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol i'w cyrraedd gan adeiladau. Roedd ar waith cyn i'r UE gyflwyno'r ail-luniad o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPBD)[1]. Mae'r Gyfarwyddeb wedi'i diwygio[2] ac rydym wedi nodi cynigion yn yr ymgynghoriad hwn i gysoni â'r newidiadau diweddaraf i'r gofynion yn y Gyfarwyddeb ar gyfer adeiladau annomestig newydd a phresennol ac anheddau presennol.

**Ymadael â'r UE – Brexit**

1.9 Mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth wedi'i ddatblygu ar lefel yr UE sy'n helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru ac yn diogelu amgylchedd a llesiant cymdeithasol Cymru. Nid yw'r ffaith bod y DU wedi gadael yr UE yn effeithio ar yr angen i weithredu nawr. Er mwyn sicrhau na chaiff amddiffyniadau na safonau sydd o fudd i'n dinasyddion, a llesiant cymdeithas yn gyffredinol, eu herydu, bydd yr ymgynghoriad hwn yn cyflwyno newidiadau fel rhan o'r broses o weithredu Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau 2010 (Ail-lunio).

**Datblygu'r cynigion hyn**

1.10 Gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r cynigion wedi cael eu datblygu gyda'n rhanddeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am fewnbwn a chefnogaeth diwydiant a rhanddeiliaid eraill drwy fynd i weithgorau technegol a rhoi cyngor arall yn ystod y cam datblygu er mwyn llywio ein cyfeiriad teithio a'n cynigion terfynol. At hynny, rydym yn ddiolchgar am y cyngor a gawsom gan Bwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu (BRACW) wrth lunio'r cynigion hyn.

1.11 Bydd y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cyflawni pedwar o'r nodau llesiant, sef: Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

1.12 Bydd y cynigion yn sicrhau Cymru lewyrchus am eu bod yn ceisio sicrhau bod cartrefi presennol yn fwy ynni effeithlon a sicrhau eu bod yn addas at y dyfodol ar gyfer cyflwyno systemau gwresogi carbon isel. Mae hyn yn creu'n uniongyrchol gymdeithas arloesol a charbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau yn effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd). Bydd cyflwyno'r newidiadau hyn yn lleihau'r costau ynni sy'n gysylltiedig â'r adeilad. Wrth i adeiladau ddod yn rhatach i'w rhedeg, bydd hyn yn sicrhau Cymru fwy cyfartal am y byddant yn helpu

[1] CYFARWYDDEB 2010/31/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Mai 2010: http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/html/?uri=CELEX:32010L0031&from=EN
[2] Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (UE) 2018/844 SENEDD EWROP A'R CYNGOR dyddiedig 30 Mai 2018 sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2010/31/EU ar berfformiad ynni adeiladau a Chyfarwyddeb 2012/27/EU ar effeithlonrwydd ynni.

pobl waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

1.13 Mae'r cynigion hefyd yn gwneud diwygiadau i Ran F (Awyru) ac yn cyflwyno gofyniad newydd i leihau'r risg o orgynhesu mewn anheddau newydd. Mae'r cynigion ar gyfer Rhan F hefyd yn helpu i sicrhau ansawdd aer dan do da trwy'r broses o gyflenwi aer i le neu leoedd mewn adeilad a'i waredu. Bydd y cynigion i leihau'r risg o orgynhesu yn helpu i sicrhau bod mesurau ar gyfer lleihau'r risg o orgynhesu mewn tywydd poeth yn cael eu darparu ar gyfer anheddau newydd sy'n fwy tebygol o orgynhesu. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu i sicrhau bod llesiant corfforol pobl cystal â phosibl.

1.14 Bydd pob un o'r camau gweithredu hyn yn gwella llesiant pobl yng Nghymru, gan ystyried, ar yr un pryd, a yw camau gweithredu o'r fath yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.

**Ystyriaeth Bellach**

1.15 Mae ymgynghoriad Cam 1 a'r ymgynghoriad hwn, sef ymgynghoriad 2A, yn ymdrin â'r holl newidiadau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni ac awyru ar gyfer anheddau newydd a phresennol. Maent hefyd yn ymdrin â newidiadau sy'n ymwneud â chysoni â'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau ar gyfer adeiladau annomestig newydd a phresennol.

1.16 Ar gyfer adeiladau annomestig, nid ydym wedi ymgynghori eto ynghylch gwelliannau i'r safonau effeithlonrwydd ynni (Rhan L) na'r safonau awyru (Rhan F). Rydym yn bwriadu ymgynghori ynghylch y materion hyn yn 2021 fel ymgynghoriad Cam 2B. Bydd ymgynghoriad Cam 2B yn ymgynghori ynghylch gwneud gwelliannau i ofynion Rheoliadau Adeiladu ar gyfer adeiladau annomestig newydd a phresennol, gan gynnwys cyfleoedd i hyrwyddo systemau gwresogi, awyru ac aerdymheru carbon isel sy'n fwy ynni effeithlon mewn adeiladau newydd a lleihau'r bwlch perfformiad.

**Amserlen ar gyfer cyflwyno newidiadau**

1.17 Nodir y dyddiadau ar gyfer cyflwyno newidiadau isod.

| **Anheddau** | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Yr opsiwn a ffefrir o ran amseriad** |
| Hydref 2020 | Dogfen ymateb i ymgynghoriad Cam 1. |
| Dechrau 2021 | Dogfen ymateb i ymgynghoriad Cam 2A. |
| Gwanwyn 2021 | Cyhoeddi Rhan L, Rhan F a rheoliadau gorgynhesu newydd, canllawiau cysylltiedig a dadansoddiadau ategol |
| Hydref 2021 | Daw Rhan L, Rhan F a'r rheoliadau gorgynhesu i rym |

| Adeiladau Annomestig | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Yr opsiwn a ffefrir o ran amseriad** |
| Dechrau 2021 | Dogfen Ymgynghori Cam 2B. |
| Haf 2021 | Dogfen ymateb i ymgynghoriad 2B. |
| Hydref 2021 | Cyhoeddi Rhan L, Rhan F a rheoliadau gorgynhesu newydd, canllawiau cysylltiedig a dadansoddiadau ategol |
| Dechrau 2022 | Daw Rhan L a Rhan F i rym |

**Rheoliadau adeiladu**

1.18 Mae Rheoliadau Adeiladu yn rheoli mathau penodol o waith adeiladu, yn bennaf codi ac ymestyn adeiladau a darparu neu ymestyn gwasanaethau neu ffitiadau penodol, yn bennaf er mwyn sicrhau bod adeiladau yn cyrraedd safonau penodol o ran iechyd, diogelwch, llesiant, cyfleustra a chynaliadwyedd.

1.19 Yr unigolyn sy'n gwneud y gwaith sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac mae'r system rheoli adeiladu yn helpu i sicrhau bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i chyflawni. Rôl y corff rheoli adeiladu, sef yr Awdurdod Lleol neu Arolygydd Cymeradwy yn y sector preifat, yw gweithredu fel gwiriad trydydd parti annibynnol er mwyn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth. Fel dewis amgen i wiriadau trydydd parti gan gorff rheoli adeiladu, gall rhai mathau o waith gael eu hunanardystio gan osodwyr sydd wedi'u cofrestru fel aelod o gynllun hunanardystio personau cymwys ac yr aseswyd eu bod yn gymwys i wneud hynny.

1.20 Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu hadeiladu a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Gall rheoleiddio hefyd peri costau i fusnesau ac unigolion. Mae natur "swyddogaethol" y Rheoliadau Adeiladu, lle mae rheoliadau yn nodi'r gofyniad cyffredinol yn hytrach na rhagnodi sut mae'n rhaid iddo gael ei fodloni, yn ceisio lleihau'r gost hon yn ogystal â sicrhau na chaiff arloesedd ei rwystro. Wedyn, mae canllawiau yn y Dogfennau Cymeradwy sy'n ategu'r Rheoliadau yn nodi rhai o'r ffyrdd y gellir bodloni'r gofynion hyn er nad oes rhaid eu dilyn os gellir dangos bod y lefel ofynnol o berfformiad wedi'i chyflawni mewn ffordd wahanol. Mae'r dull hwn o weithredu yn rhoi eglurder i gyrff rheoli adeiladu a diwydiant fel ei gilydd.

1.21 Er mwyn osgoi'r risg y caiff safonau beichus a chostus diangen eu gosod ar ddiwydiant, mae'n bwysig bod asesiad cost/budd priodol ac ymgynghoriad priodol â diwydiant wedi'u cynnal gan Lywodraeth Cymru er mwyn asesu pa safonau gofynnol rhesymol sy'n briodol.

# Pennod 2. Safonau Rhan L ar gyfer Anheddau Presennol

**Cefndir**

2.1 Mae'r bennod hon yn ystyried newidiadau i'r ffordd y caiff y Rheoliadau eu cymhwyso at anheddau presennol. Rydym wedi cynnig y newidiadau canlynol:

- Codi safonau ar gyfer gwaith rheoledig mewn anheddau presennol, lle y gellir dangos bod hyn yn gosteffeithiol.
- Rhai diwygiadau i'r gofynion o ran gwelliannau canlyniadol.
- Trosi gofynion perthnasol o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPBD)

2.2 Mae strwythur y Dogfennau Cymeradwy wedi'u diwygio fel y byddant yn cael eu cyhoeddi mewn dwy gyfrol: cyfrol 1 i roi canllawiau ar gyfer anheddau, a chyfrol 2 i roi canllawiau ar gyfer adeiladau heblaw anheddau. At hynny, cynigir y dylid cynnwys rhannau perthnasol o'r Canllaw Cydymffurfio Gwasanaethau Adeilad yn y Dogfennau Cymeradwy yn hytrach na chyfeirio atynt ar wahân. Ymgynghorwyd ynghylch y newidiadau i'r strwythur yn ystod ymgynghoriad Cam 1 [3] ac, felly, nid ymgynghorir yn eu cylch eto yma.

**Safonau perfformiad ar gyfer adeiladwaith**

2.3 Nodwyd gwelliannau i'r safonau ar gyfer gwaith mewn anheddau presennol. Nodir manylion pellach am y safonau arfaethedig yng Nghyfrol 1 o Ddogfen Gymeradwy L.

2.4 Cysonodd adolygiad 2014 o Ran L y safonau ar gyfer estyniadau domestig â pharamedrau cyfyngol gorfodol adeiladwaith ar gyfer anheddau newydd. Cynigir bellach y dylid gwella'r safonau ar gyfer estyniadau domestig er mwyn cysoni â gwelliannau tebyg a gynigir ar gyfer paramedrau cyfyngol adeiladwaith ar gyfer anheddau newydd yn ymgynghoriad Cam 1. Ystyriwyd gwella safonau ar gyfer estyniadau ymhellach, hyd at y gwerthoedd elfennol yn y 'rysáit' ar gyfer adeiladau newydd. Fodd bynnag, mae'r 'rysáit' yn ddull gweithredu seiliedig ar berfformiad ac mae manylebau adeiladwaith elfennol ar gyfer anheddau newydd yn hyblyg ar yr amod y bodlonir paramedrau cyfyngol adeiladwaith neu yr eir y tu hwnt iddynt. At hynny, gall fod materion ymarferol a chostau yn gysylltiedig â sicrhau'r un perfformiad adeiladwaith â'r 'rysáit' ar gyfer adeiladau newydd mewn estyniadau cyfyngedig o ran lle.

2.5 Mae'r Ddogfen Gymeradwy yn nodi'r safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer ffenestri a drysau (os ydynt yn rhai newydd, yn rhai a adnewyddwyd neu'n rhai a wnaed yn fwy). Fel y Ddogfen Gymeradwy bresennol, cynigir y dylent barhau i gyd-fynd â'r safonau ar gyfer estyniadau. Felly, cynigir y dylid gwella'r safon ofynnol ar gyfer ffenestri a drysau o U=1.6 W/m2.K i U=1.4 W/m2.K.

[3] https://llyw.cymru/adolygiad-rhan-l-o-reoliadau-adeiladu

2.6 Mae heulfan neu bortsh wedi'i (h)eithrio rhag y gofynion effeithlonrwydd ynni os yw'n bodloni gofynion penodol, sy'n cynnwys bod ar wahân yn thermol i'r rhan o'r annedd sydd wedi'i chynhesu. Ystyrir bod heulfan neu bortsh ar wahân yn thermol os caiff y waliau, y ffenestri a'r drysau presennol rhwng yr annedd a'r heulfan neu'r portsh eu gadael yn eu lle neu, os ceir gwared arnynt, bod y rhai a osodir yn eu lle yn cyrraedd safonau a nodir yn y Ddogfen Gymeradwy. Ar hyn o bryd, mae'r safonau olaf hyn yn cyd-fynd â'r rhai ar gyfer estyniadau a chynigir y dylent barhau felly. O ganlyniad, caiff y safonau hyn eu gwella er mwyn iddynt gyd-fynd â'r gwelliannau ar gyfer estyniadau a nodwyd yn y paragraffau blaenorol.

2.7 Mae addasiad yn disgrifio pan gaiff rhan o annedd, nad oedd yn ddarostyngedig i ofynion o ran effeithlonrwydd ynni yn flaenorol, ei addasu yn lle wedi'i gynhesu, er enghraifft atig wedi'i haddasu (disgrifir hyn fel ‘newid statws ynni’ yn y Rheoliadau Adeiladu). Yn achos addasiad, mae elfen thermol a gedwir yn elfen bresennol sy'n dod yn elfen thermol lle nad oedd yn elfen thermol yn flaenorol, er enghraifft wal dalcen mewn atig sydd wedi'i haddasu. Os bydd perfformiad thermol yr elfen a gedwir yn waeth na gwerth trothwy a nodir yn y Ddogfen Gymeradwy, argymhellir, ar ôl i'r gwaith addasu gael ei gwblhau, y dylid uwchraddio'r perfformiad thermol i safon ofynnol o leiaf, a ddiffinnir hefyd yn y Ddogfen Gymeradwy. Cynigir nawr y dylid cynnwys canllawiau pellach yn y Ddogfen Gymeradwy ddrafft er mwyn tynnu sylw at y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â lleithder wrth uwchraddio elfennau thermol a gedwir a gwneud argymhellion i'r risg gael ei hasesu a'i lleihau gan berson sy'n gymwys i wneud hynny. At hynny, cynigir y dylai'r holl safonau ar gyfer toeau gyd-fynd bellach â'r safon ar gyfer toeau ar oleddf sydd â deunydd inswleiddio ar lefel y nenfwd, sef U=0.16 W/m2.K, am nad oes unrhyw reswm technegol nac economaidd sylweddol i'r safonau fod yn wahanol; yn flaenorol, y safon ar gyfer toeau ar oleddf â deunydd inswleiddio rhwng y ceibrennau a thoeau gwastad oedd U=0.18 W/m2.K. Rydym hefyd yn cynnig y dylai pob un o'r cynigion hyn fod yn gymwys i newid defnydd perthnasol, am fod materion tebyg yn gymwys (er enghraifft, os yw'r adeilad bellach yn cael ei ddefnyddio fel annedd, pan oedd yn adeilad heb ei gynhesu yn flaenorol e.e. ysgubor).

2.8 Ar gyfer gwaith adnewyddu, gwaith addasu neu newid defnydd perthnasol, pan fydd angen asesu addasrwydd elfen cyn gosod deunydd inswleiddio, neu pan argymhellir y dylid ceisio cyngor arbenigol, mae'r Ddogfen Gymeradwy yn cynnig y dylai'r sawl sy'n gwneud y gwaith hwn fod wedi cael ei hyfforddi'n briodol i asesu a rheoli risg, e.e. Cydgysylltydd Gwaith ôl-osod fel y'i nodir yn PAS 2035, a dilyn y gweithdrefnau a nodir yn PAS 2030/2035: 2019 – Gwaith ôl-osod mewn anheddau er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni: Manyleb a chanllawiau.

2.9 Mae'r Ddogfen Gymeradwy bresennol yn cynnwys Atodiad C sy'n cynnwys gwelliannau cost isel ar gyfer adnewyddu elfennau thermol presennol ynghyd â sylwadau ynghylch rhesymoldeb, ymarferoldeb a chosteffeithiolrwydd. Nodwyd nad yw'r tabl hwn o welliannau inswleiddio costeffeithiol yn mynd i'r afael â'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â lleithder yn foddhaol. Dylai pob gwelliant gael ei asesu a'i lunio i reoli risg, a fyddai'n golygu bod y canllawiau yn y tabl yn ddiangen. Felly, cynigir y dylid dileu'r Atodiad am y dylai'r gwaith gael ei asesu a'i wneud gan weithiwr proffesiynol.

**Safonau perfformiad ar gyfer gwasanaethau adeilad**

2.10 Nodir y prif newidiadau a gynigir i'r safonau presennol isod.

'Boiler plus'

2.11 Ym mis Rhagfyr 2016, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ynghylch amrywiaeth o gynigion polisi a elwir, gyda'i gilydd, yn ‘Boiler Plus’, er mwyn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr ynglŷn â'r ffordd y maent yn cynhesu eu cartrefi a mwy o reolaeth dros eu biliau ynni. O ganlyniad, daeth safonau gofynnol ychwanegol i rym o fis Ebrill 2018 ymlaen yn Lloegr yn unig a chynhwyswyd y manylion yn y Canllaw Cydymffurfio Gwasanaethau Adeilad Domestig. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ymgynghori ynghylch y posibilrwydd o gyflwyno'r gofynion hyn yng Nghymru drwy'r Rheoliadau Adeiladu.

2.12 Cynigir y dylai'r safon perfformiad ofynnol newydd ar gyfer boeleri nwy domestig mewn cartrefi yng Nghymru gael ei phennu ar 92% ErP. Bydd y safon arfaethedig hefyd yn gwneud amseryddion a thermostatau ystafell yn ofyniad penodol ar gyfer pob system nwy ac olew.

2.13 Pan gaiff boeler cyfunol nwy ei osod, cynigir y dylai fod angen mesur effeithlonrwydd ynni ychwanegol. Mae'r gofyniad hwn yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer gwneud dewis addas sy'n adlewyrchu natur amrywiol y stoc dai ac anghenion yr aelwyd. Y technolegau arbed ynni y gellir eu defnyddio i gydymffurfio yw:

- System adfer gwres nwy â ffliw
- System cyfadfer ar gyfer y tywydd ('Weather Compensation')
- System cyfadfer ar gyfer llwyth ('Load Compensation')
- Rheolyddion clyfar (â mynediad o bell) sydd â swyddogaethau awtomeiddio ac optimeiddio

2.14 Mae'r diffiniadau o rai o'r technolegau hyn sydd wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Gymeradwy yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn Lloegr. Y bwriad yw ystyried adborth o ddiwydiant er mwyn gwneud y diffiniadau'n gliriach.

2.15 Gellir gweld manylion pellach sy'n disgrifio'r sail resymegol dros y newidiadau hyn yn ymgynghoriad Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/government/consultations/heat-in-buildings-the-future-of-heat

Ecoddylunio ar gyfer Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Gysylltiedig ag Ynni

2.16 Mae'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol wedi'u hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y lefelau sy'n ofynnol gan Reoliadau Ecoddylunio ar gyfer Cynhyrchion sy'n Gysylltiedig ag Ynni 2010 (fel y'u diwygiwyd) o leiaf. Mae'r safonau Ewropeaidd hyn yn ofynnol yng Nghymru ar hyn o bryd ac maent yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n ofynnol ar hyn o bryd yn y Canllaw Cydymffurfio Gwasanaethau Adeilad Domestig, felly nid yw hyn yn newid mewn polisi.

Sicrhau bod cartrefi yn addas at y dyfodol

2.17 Hoffem ei gwneud yn haws i systemau gwresogi carbon isel gael eu gosod mewn cartrefi presennol yn y dyfodol. Un cynnig a fyddai'n sicrhau manteision nawr ac yn ei gwneud yn haws i bympiau gwres neu systemau gwresogi ardal gael eu gosod yn y dyfodol, yw y dylid gosod neu adnewyddu system wresogyddion mewn adeilad presennol (gan gynnwys y boeler a rheiddiaduron). Dylai'r system fod yn ddigon mawr i'r system wresogyddion allu gweithio ar dymheredd llif o 55°C neu'n is. Os na fydd yn ymarferol gosod system wresogyddion a all weithio ar y tymheredd hwn (er enghraifft, os na fydd digon o le i reiddiaduron mwy o faint), yna dylid cynllunio'r system wresogyddion i weithio ar y tymheredd dylunio isaf posibl a fydd yn dal i ddiwallu anghenion gwres yr annedd.

2.18 Ar dymereddau o 55°C neu'n is y mae pympiau gwres yn gweithio orau. Byddai'r llif tymheredd hwn hefyd yn dod â manteision drwy wella effeithlonrwydd boeleri cyddwyso, gan sicrhau arbedion ynni uniongyrchol i ddefnyddwyr. Byddai hefyd yn lleihau colledion ac yn gwella effeithlonrwydd systemau gwresogi ardal ac yn hwyluso'r broses o newid i dechnolegau carbon isel.

2.19 Opsiwn arall a ystyriwyd oedd ei gwneud yn ofynnol i system storio dŵr poeth gael ei gosod pan gaiff system wresogyddion ei gosod neu ei adnewyddu mewn adeilad presennol. Gellid ystyried gosod silindr dŵr poeth fel mesur i sicrhau bod adeilad yn addas at y dyfodol, gan y bydd ei angen i osod pwmp gwres yn ddiweddarach am na all pympiau gwres gyflenwi dŵr poeth ar alwad ar hyn o bryd ac, felly, mae angen lle i storio dŵr poeth arnynt. Fodd bynnag, oni bai bod angen storfa dŵr poeth eisoes ar gyfer y system wresogi newydd sy'n cael ei gosod, byddai'n cynyddu'r gost i'r defnyddiwr ac yn cwtogi ar y lle sydd ar gael yn yr adeilad heb gynnig unrhyw beth i'r defnyddiwr yn y byrdymor (h.y. pe bai'r defnyddiwr yn dewis boeler cyfunol nwy, fel arfer ni fyddai angen system storio dŵr poeth arno). At hynny, efallai na fydd y silindr a osodwyd ymlaen llaw yn addas ar gyfer y pwmp gwres a ddewisir i'w osod yn ddiweddarach. Felly, efallai na fydd y pwmp gwres yn gweithio cystal ag y dylai neu efallai y bydd angen gosod silindr newydd yn lle'r un presennol. Felly, ni chynigir yr opsiwn hwn yn yr ymgynghoriad.

**Gwelliannau canlyniadol**

2.20 Ymestynnodd Rhan L 2014 y gofynion ar gyfer gwelliannau canlyniadol. Gwelliannau canlyniadol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r defnydd o'r Rheoliadau Adeiladu i ysgogi gofyniad i wneud gwaith effeithlonrwydd ynni ychwanegol mewn adeilad lle mae gwaith rheoledig arall eisoes yn mynd rhagddo. Y rheswm dros gyflwyno'r newidiadau hyn oedd cydnabod bod angen lleihau allyriadau o'r stoc adeiladau presennol fel mater o frys a sicrhau bod cartrefi yn haws ac yn rhatach i'w gwresogi. Rydym yn cynnig rhai diwygiadau i'r gofynion hyn.

2.21 Yn ôl y Ddogfen Gymeradwy bresennol, pan gaiff annedd bresennol ei hymestyn neu ei haddasu, gan gynyddu'r arwynebedd cyfanheddol fwy na 10m2, mae'n rhaid i welliannau effeithlonrwydd ynni ychwanegol gael eu cyflawni. Nodir y gwelliannau hyn yn y Ddogfen Gymeradwy bresennol.

2.22 Cynigir y newidiadau canlynol i'r canllawiau presennol:

a. Caiff y gofyniad i osod rhagor o ddeunydd inswleiddio mewn waliau ceudod sydd wedi'u hinswleiddio'n rhannol ei ddileu o'r rhestr o welliannau effeithlonrwydd ynni. Diben hyn yw sicrhau nad amherir ar y bwlch aer ar ochr oer y deunydd inswleiddio am y gallai hyn gynyddu'r risg o leithder.
b. Bydd y canllawiau ar inswleiddio waliau ceudod nad ydynt wedi'u hinswleiddio yn cynnwys asesiad annibynnol i sicrhau bod y wal yn addas i'w huwchraddio (e.e. lled ceudod addas, ceudod digon glân, bod y math o gwlwm wal ('wall tie') neu gyflwr y cwlwm wal yn foddhaol, uniadau morter boddhaol i ddiogelu'r wal rhag y tywydd). Rydym yn cynnig y dylid cysoni â Llwybr A (prosiectau syml neu brosiectau mesurau unigol) PAS 2035/2030: 2019[4]. Drwy gysoni â PAS 2035 mae sicrwydd cynhenid bod yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad yn gymwys i wneud hynny.

**Y Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPBD)**

2.23 Mae Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu yn rhan o agenda uchelgeisiol ar gyfer effeithlonrwydd ynni domestig ac fe'i defnyddir i bennu safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol ar gyfer adeiladau er mwyn helpu i leihau allyriadau. Roedd ar waith cyn i'r UE gyflwyno'r ail-luniad o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau[5] yn 2010, a gafodd ei lywio gan bolisïau roedd y DU eisoes yn eu gweithredu ac, felly, mae Rhan L wedi'i defnyddio i drosi rhannau perthnasol o'r Gyfarwyddeb i gyfraith y DU. Mae'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau wedi'i diwygio'n ddiweddar[6] ac rydym wedi nodi cynigion yn yr ymgynghoriad hwn i gysoni â'r newidiadau diweddaraf i'r gofynion yn y Gyfarwyddeb ar gyfer anheddau presennol, yn y meysydd canlynol:

- Dyfeisiau hunanreoleiddio
- Systemau awtomeiddio a rheoli adeiladau a systemau cynhyrchu trydan ar y safle
- Systemau adeilad technegol
- Ynni cynradd

<u>Dyfeisiau hunanreoleiddio</u>

2.24 Mae dyfais hunanreoleiddio yn ddyfais neu'n system sy'n rheoli allbwn allyrwyr gwresogi a/neu oeri yn awtomataidd er mwyn rheoli'r tymheredd ym mhob ystafell yn annibynnol, (neu, pan fo cyfiawnhad dros hynny, ardal wresogi a/neu oeri) lle y caiff systemau gwresogi a/neu oeri eu darparu gan wasanaeth adeilad sefydlog.[7]

[4] PAS 2035/2030:2019, Gwaith ôl-osod mewn anheddau er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni. Manyleb a chanllawiau.
[5] CYFARWYDDEB 2010/31/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Mai 2010: https://eurlex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=CELEX:32010L0031&from=EN
[6] CYFARWYDDEB PERFFORMIAD YNNI ADEILADAU (UE) 2018/844 SENEDD EWROP A'R CYNGOR dyddiedig 30 Mai 2018 sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2010/31/EU ar berfformiad ynni adeiladau a Chyfarwyddeb 2012/27/EU ar effeithlonrwydd ynni
[7] Mae ardal wresogi a/neu oeri yn rhan o adeilad sydd wedi cael ei thrin (h.y. rhan o adeilad â system wresogi neu system oeri neu'r ddwy) a leolir ar un llawr ac sydd â gofynion o ran paramedrau thermol homogenaidd a rheoleiddio tymereddau homogenaidd. Gall hyn gynnwys mannau cyfagos nad ydynt wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth ei gilydd e.e. cegin cynllun agored ac ardal fyw.

2.25 Er mwyn cysoni â'r trydydd is-baragraff o erthygl 8(1) o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (UE) 2018/844, cynigir y dylid cyflwyno rheoliad newydd yn Rheoliadau Adeiladu 2010 er mwyn sicrhau, pan gaiff generadur gwres newydd, megis boeler, ei osod yn lle'r un presennol mewn adeilad presennol, fod yn rhaid iddo gynnwys dyfeisiau hunanreoleiddio ar gyfer rheoleiddio'r tymheredd ym mhob ystafell neu ardal wresogi ddynodedig o'r uned adeiladu ar wahân, pan fo'n dechnegol ac yn economaidd ddichonadwy 8.

2.26 Byddai gosod falfiau thermostatig rheiddiadur (TRV) ar reiddiaduron ym mhob ystafell, sy'n aml yn cael eu gosod eisoes fel arfer safonol, yn ffordd gyffredin o fodloni'r gofyniad hwn yn ymarferol ar gyfer cartrefi presennol.

2.27 Darperir canllawiau a awgrymir ar gyfer anheddau presennol yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, cyfrol 1 sy'n ategu'r pecyn ymgynghori hwn.

Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladau a Systemau Cynhyrchu Trydan ar y Safle

2.28 Er mwyn cysoni ag is-baragraff cyntaf ac ail is-baragraff erthygl 8(1) o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EU) 2018/844, cynigir y dylid cyflwyno rheoliad newydd i Reoliadau Adeiladu 2010 er mwyn sicrhau, pan gaiff system awtomeiddio a rheoli adeilad neu system cynhyrchu trydan ar y safle eu cynnwys mewn adeilad presennol, y caiff gofynion systemau eu pennu o ran perfformiad ynni cyffredinol y systemau, eu gosod yn gywir a'u dimensiynu, eu haddasu a'u rheoli'n briodol.

2.29 Mae system awtomeiddio a rheoli adeilad yn derm a ddefnyddir ar gyfer system ganolog a osodir i fonitro a rheoli amgylchedd a gwasanaethau adeilad h.y. ei systemau gwresogi, awyru, aerdymheru a goleuadau a systemau eraill (megis larymau diogelwch a lifftiau). Fel arfer, câi systemau o'r fath eu gosod mewn adeiladau masnachol mawr ond nid mewn anheddau fel arfer. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gellid gosod system awtomeiddio a rheoli adeilad mewn bloc mawr o randai.

2.30 Darperir canllawiau a awgrymir ar gyfer anheddau presennol yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, cyfrol 1 sy'n ategu'r pecyn ymgynghori hwn.

Perfformiad Ynni Systemau Adeilad Technegol

2.31 Mae system adeilad dechnegol yn derm a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau adeilad sefydlog (megis cyfarpar gwresogi gofod, oeri gofod, awyru, dŵr poeth domestig, goleuadau), systemau awtomeiddio a rheoli adeilad, systemau cynhyrchu trydan ar y safle neu gyfuniad o'r rhain.

2.32 Er mwyn cysoni ag is-baragraff cyntaf ac ail is-baragraff erthygl 8(9) o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EU) 2018/844, cynigir y dylid cyflwyno rheoliad newydd i Reoliadau Adeiladu 2010 er mwyn sicrhau, pan gaiff system

[8] Nid oes angen gosod dyfeisiau hunanreoleiddio mewn achosion lle y caiff generaduron oeri newydd eu gosod yn lle rhai presennol mewn adeiladau presennol.

adeilad dechnegol ei gosod, ei hadnewyddu neu ei huwchraddio, y caiff perfformiad ynni cyffredinol y rhan a newidiwyd a, lle y bo'n berthnasol, y system gyfan a newidiwyd, ei asesu. At hynny, caiff y canlyniadau eu dogfennu a'u trosglwyddo i berchennog yr adeilad.

2.33 Darperir canllawiau ar asesu a darparu gwybodaeth am berfformiad ynni systemau adeilad technegol ar gyfer anheddau presennol yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, cyfrol 1, sy'n ategu'r pecyn ymgynghori hwn.

Ynni cynradd

2.34 Mae'r fersiwn bresennol o Ddogfen Gymeradwy L1B yn darparu ‘dull gweithredu sy'n seiliedig ar dargedau carbon cyfatebol’, sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd dylunio i gyrraedd safonau ar gyfer anheddau presennol drwy ganiatáu i rai elfennau o'r dyluniad gael eu llacio os gwneir iawn am hynny rywle arall ar yr amod y sicrheir yr un lefel o allyriadau carbon neu lai o allyriadau carbon. Cynigir y dylid newid y dull hwn o weithredu i un sy'n seiliedig ar ynni cynradd yn hytrach nag allyriadau carbon. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymgynghoriad Cam 1 a gynigiodd y dylid cyflwyno metrig ynni cynradd ar gyfer anheddau newydd fel ffordd dda o ysgogi effeithlonrwydd ynni. Darperir canllawiau ar y dull hwn o weithredu ar gyfer anheddau presennol yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L, cyfrol 1.

**Cwestiwn 1**

| **A ydych yn cytuno â'r safonau adeiladwaith gofynnol arfaethedig ar gyfer estyniadau fel y'u nodir yn Nhabl 4.1?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno ag unrhyw un o'r safonau arfaethedig, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 2**

| **A ydych yn cytuno â'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol arfaethedig ar gyfer ffenestri a drysau fel y'u nodir yn Nhabl 10.1?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 3**

| **A ydych yn cytuno â'r safonau gofynnol arfaethedig ar gyfer (i) heulfan neu bortsh heb ei eithrio (paragraff 10.29) a (ii) arwahanu thermol ar gyfer heulfan neu bortsh er mwyn cael ei (h)eithrio rhag y gofynion effeithlonrwydd ynni fel y darperir yn Adran 10 (paragraff 10.28)?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 4**

| **A ydych yn cytuno â'r safonau gofynnol arfaethedig ar gyfer elfennau thermol a gedwir ar gyfer addasiadau fel y'u nodir yn Nhabl 11.1 a'r canllawiau ychwanegol i helpu i fynd i'r afael â risgiau posibl sy'n gysylltiedig â lleithder?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 5**

| **A ydych yn cytuno â'r wybodaeth/cymwysterau a awgrymir y cynigir y dylai/dylent fod yn ofynnol ar gyfer gwaith adnewyddu, gwaith addasu neu newid defnydd perthnasol a roddir yn Adran 11, lle mae angen asesu addasrwydd elfen cyn gosod deunydd inswleiddio, neu lle yr argymhellir y dylid ceisio cyngor arbenigol?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 6**

| **A ydych yn cytuno y dylid dileu Atodiad C o'r Ddogfen Gymeradwy bresennol?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 7**

| A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno 'Boeler Plus' yn Adran 6? | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 8**

| A ydych yn cytuno â'r safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau adeilad yn Adrannau 5 a 6? | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 9**

| A ydych yn cytuno â'r cynnig, pan gaiff system wresogyddion ei gosod neu ei hadnewyddu mewn cartref presennol, y dylai'r system fod yn ddigon mawr i'r system wresogyddion allu gweithio ar dymheredd llif o 55°C neu'n is, lle y bo'n ymarferol, yn Adran 5? | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 10**

| A ydych yn cynnig unrhyw fesur(au) eraill i sicrhau bod adeiladau yn addas at y dyfodol? | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| Os ydych, nodwch eich mesur(au) a pha waith adeiladu a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r mesur gael ei osod. | |

**Cwestiwn 11**

| **A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i welliannau canlyniadol yn Adran 12?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 12**

| **A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Dyfeisiau Hunanreoledig fel y'i nodir yn Adran 5?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 13**

| **A ydych yn cytuno â'r safonau newydd arfaethedig ar gyfer Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladau (BACS) a Systemau Cynhyrchu Trydan ar y Safle fel y'u nodir yn Adran 6?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 14**

| **A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i Systemau Adeilad Technegol gael eu hasesu ac i wybodaeth amdanynt gael ei darparu fel y'i nodir yn Adran 9?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 15**

| **A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig i newid o'r 'dull gweithredu sy'n seiliedig ar dargedau carbon cyfatebol' i'r 'dull gweithredu sy'n seiliedig ar dargedau ynni cynradd cyfatebol' yn Adran 13 er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd dylunio?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

# Pennod 3. Newidiadau i Ran F ar gyfer Anheddau Presennol

**Cefndir**

3.1 Awyru yw cyflenwi aer i fan neu fannau mewn adeilad a'i dynnu ohono neu ohonynt, drwy ddulliau naturiol neu fecanyddol. Mae system awyru ddigonol mewn cartrefi yn bwysig i sicrhau ansawdd aer da.

3.2 Pan gaiff gwaith ei wneud ar adeilad presennol, ni ddylid gwneud gweddill yr adeilad yn llai boddhaol mewn perthynas â gofynion Rhan F nag ydoedd cyn i'r gwaith gael ei wneud. Wrth wneud gwaith ôl-osod er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni domestig, mae llawer o fesurau yn debygol o wneud yr adeilad yn fwy aerglos a lleihau lefel awyru cefndir. Mewn rhai achosion, bydd hyn yn arwain at lefel annigonol o awyru ar gyfer yr adeilad a bydd angen darparu system(au) awyru ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae Dogfen Gymeradwy F yn rhoi ychydig o ganllawiau ar sut y dylid darparu'r systemau awyru ychwanegol hyn.

3.3 Mae'r newidiadau arfaethedig yn canolbwyntio'n bennaf ar amrywiaeth eang o senarios cyffredin ar gyfer gwaith ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni domestig. Mae'n nodi ble y bydd angen systemau awyru ychwanegol, yn ôl pob tebyg, ac yn cynnig darpariaethau rhesymol y gellir derbyn, o dan amgylchiadau cyffredin, eu bod dangos cydymffurfiaeth ar gyfer Rhan F.

**Gosod Mesurau Effeithlonrwydd Ynni**

3.4 Mae Dogfen Gymeradwy F yn cynnwys is-adran newydd ar ddarpariaethau awyru ychwanegol wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni. Mae'n cynnig dau opsiwn, sef:

a. Nodir dull syml yn y Ddogfen Gymeradwy. Mae'n nodi darpariaethau awyru ychwanegol ar gyfer senarios gwahanol ar gyfer gwaith ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni. Bwriedir i'r dull hwn fod yn briodol ar gyfer y mwyafrif o anheddau presennol. Os bydd yr eiddo yn wahanol iawn i'w adeiladwaith gwreiddiol o ganlyniad i fesurau effeithlonrwydd ynni, dylid dilyn y dull 'cyngor arbenigol'.
b. Mae'r Ddogfen Gymeradwy yn cynnig yr opsiwn amgen o geisio cyngor arbenigol. Gellir dilyn hwn, er enghraifft, os nad yw'r dull syml yn briodol.

3.5 Ar gyfer y dull syml, mae'r Ddogfen Gymeradwy yn rhestru'r mesurau effeithlonrwydd ynni mwyaf cyffredin yr ystyrir eu bod yn lleihau cyfraddau ymdreiddio. Gellid ymestyn y rhestr hon ymhellach. Fodd bynnag, bwriedir cyfyngu ar faint y tabl fel y gellir llunio canllawiau syml yn Ddogfen Gymeradwy a sicrhau eu bod yn hawdd i'w dilyn. Gellir mabwysiadu'r opsiwn i geisio cyngor arbenigol, yn ôl yr angen.

3.6 Dosberthir pob un o'r mesurau effeithlonrwydd ynni a restrir fel mân fesur ôl-osod neu fesur ôl-osod mawr; sef effaith bosibl y mesur cysylltiedig o ran gwneud yr amlen yn fwy aerglos, gan leihau'r gyfradd awyru.

3.7 Er mwyn mesur effaith y mesurau ôl-osod hyn ar y gyfradd awyru, dosbarthwyd gwelliannau o ran hydreiddedd aer i'r categorïau mân fesur ôl-osod a mesur ôl-osod mawr. Pennwyd gwerthoedd gwelliant canolrifol o 2.5 ac 1.0 m3/(h.m2) @ 50 Pa ar gyfer y ddau gategori hyn yn y drefn honno, a gafwyd drwy adolygu 75 o astudiaethau achos a gymerwyd o raglen ‘Retrofit for the Future’ (Innovate UK) a chronfa ddata Adeiladau Ynni Isel AECB (LEBD)9 lle roedd gwybodaeth ar gael am hydreiddedd aer yr anheddau cyn ac ar ôl i'r mesur gael ei osod. Troswyd y rhain yn ostyngiadau yn y gyfradd cyfnewid aer (ach), sef 0.13 a 0.05 ach yn y drefn honno, drwy ddefnyddio ‘rheol rhannu ag 2010’.

3.8 At ddibenion y dull syml, mae angen pennu cyfradd cyfnewid aer sylfaenol cyn gwneud y gwaith ôl-osod. Ystyrir bod y gyfradd hon yn 0.55 ach. Cyfrifwyd y ffigur hwn ar sail cymedr hydreiddedd aer cyn y gwaith ôl-osod ar gyfer y 75 o astudiaethau achos, sef 11.0 m3/(h.m2) @ 50 Pa, a defnyddio ‘rheol rhannu ag 20’. Ystyriwyd dewis hydreiddedd aer cyn y gwaith ôl-osod i gynrychioli, dyweder, 20fed ganradd mesuriadau hydreiddedd aer cyn y gwaith ôl-osod er mwyn rhoi mwy o sicrwydd y byddai systemau awyru yn ddigonol ar ôl cwblhau'r gwaith ôl-osod. Pe gwneid hynny, byddai hydreiddedd aer o 7.5 m3/(h.m2) @ 50 Pa yn cael ei ddefnyddio fel y llinell sylfaen yn lle 11.0 m3/(h.m2) @ 50 Pa. Fodd bynnag, o adolygu'r astudiaethau achos, gwelwyd bod rhai mesurau ôl-osod effeithlonrwydd ynni yn dueddol o fod wedi cael eu gosod eisoes yn yr eiddo mwy aerglos (o fewn yr 20fed ganradd). Felly, y dull gweithredu arfaethedig yw mabwysiadu cymedr y dosbarthiad fel y llinell sylfaen ac ystyried mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n bodoli eisoes wrth bennu nifer y mân fesurau a'r mesurau mawr.

3.9 Mae'r Ddogfen Gymeradwy yn darparu siart lif o ddarpariaethau awyru ychwanegol sydd eu hangen yn dibynnu ar nifer y mân fesurau a'r mesurau mawr (rhai newydd a rhai sy'n bodoli eisoes). Nodir y tri chategori canlynol.

a. **Categori A:** Amcangyfrifir, o ganlyniad i roi'r mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith, y bydd y gyfradd cyfnewid aer yn lleihau hyd at 0.1 ach. Mae hyn yn cymharu â llinell sylfaen o 0.55 ach. Felly, mae risg isel y byddai'r mesurau yn y categori hwn yn lleihau cyfradd awyru hydreiddio islaw 0.45 ach, sy'n debyg i'r gyfradd awyru isaf a argymhellir ar gyfer anheddau newydd. Yn gyffredinol, nid argymhellir unrhyw welliant i ddarpariaethau awyru mewn annedd ar gyfer Categori A ac eithrio y dylid gosod awyryddion cefndir mewn unrhyw ffenestri newydd nad oes ganddynt awyryddion cefndir a osodir yn lle rhai presennol neu os nad yw maint yr awyryddion cefndir yn y ffenestr bresennol yn hysbys.
b. **Categori B:** Amcangyfrifir, o ganlyniad i roi'r mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith, y bydd y gyfradd cyfnewid aer yn lleihau hyd at 0.3 ach. Gan ddefnyddio llinell sylfaen Categori A o 0.45 ach, bydd lleihad o'r fath yn arwain at gyfradd awyru hydreiddio weddilliol o 0.15 ach. Cynigir y dylid argymell cynnydd o 0.30

[9]Mae Cronfa Ddata Adeiladau Ynni Isel yn storfa gwybodaeth am adeiladau ynni isel a grëwyd er mwyn helpu i lywio'r gwaith o gynllunio a datblygu prosiectau ar gyfer adeiladau ynni isel newydd a phrosiectau adnewyddu. Mae'r gronfa ddata yn cynnwys eiddo a fu'n rhan o raglen ‘Retrofit for the Future’ a ariannwyd gan Innovate UK. www.lowenergybuildings.org.uk
[10] Gellir cael amcangyfrif ‘bras’ o gyfraddau hydreiddio aer o'r data ar hydreiddedd aer. Y dull a ddefnyddir yn SAP yw rhannu canlyniad hydreiddedd aer 50 Pa ($Q_{50}$ – sy'n cyfateb, fwy neu lai, i'r gyfradd gollwng aer $n_{50}$) ag 20. Mae hyn yn amcangyfrif dosbarthiad cyfartalog cyfraddau hydreiddio.

ach drwy ddarpariaethau awyru ychwanegol, gan gynyddu'r gyfradd cyfnewid aer i 0.45 ach. Mae hyn yn debyg i'r darpariaethau awyru a argymhellir ar gyfer cartrefi newydd sy'n gollwng mwy na 5.0 $m^3/(h.m^2)$ @ 50 Pa, sy'n darparu ar gyfer cyfradd hydreiddio o 0.15 ach.

c. **Categori C:** Disgwylir i'r gyfradd cyfnewid aer, o ganlyniad i roi'r mesurau hyn ar waith, leihau'n sylweddol a chyrraedd lefel islaw 0.15 ach. Mewn senarios o'r fath, cynigir y dylid mabwysiadu'r darpariaethau awyru rhagosodedig a argymhellir ar gyfer cartrefi newydd lle na thybir unrhyw gyfradd hydreiddio.

3.10 Mewn rhai achosion, gall fod darpariaethau awyru naturiol neu fecanyddol a ddarparwyd i'r pwrpas yn yr eiddo presennol eisoes. Gellir cyfrif y rhain tuag at y darpariaethau awyru y nodwyd bod eu hangen ar gyfer Categori B ac C.

**Gosod ffenestri newydd yn lle rhai presennol yn unig**

3.11 Ar hyn o bryd, mae'r Ddogfen Gymeradwy yn nodi, os nad oes awyryddion cefndir wedi'u gosod ar y ffenestri gwreiddiol, ac nad yw'r ystafell wedi'i hawyru'n ddigonol drwy ddulliau eraill, ei bod yn arfer dda (yn hytrach na darpariaeth resymol) gosod awyryddion cefndir, neu ddull awyru cyfatebol.

3.12 Er mwyn helpu i reoli cyddwysiad a gwella ansawdd aer dan do, cynigir nawr y dylid gwneud darpariaeth resymol i gynnwys systemau awyru ychwanegol wrth osod ffenestri newydd yn lle rhai presennol nad oes ganddynt awyryddion cefndir neu os nad yw maint yr awyryddion cefndir yn y ffenestr bresennol yn hysbys. Mae'r Ddogfen Gymeradwy yn nodi arwynebeddau cyfatebol gofynnol gwahanol ar gyfer awyryddion cefndir wedi'u teilwra i'r math o ystafell yn yr annedd a'r math o system awyru.

**Profi a chomisiynu systemau awyru mecanyddol**

3.13 Ar hyn o bryd, mae Rheoliad 44 o'r Rheoliadau Adeiladu yn nodi, pan gaiff system awyru fecanyddol ei darparu neu ei hymestyn mewn annedd bresennol, fod yn rhaid i'r datblygwr roi hysbysiad i'r corff rheoli adeiladu fod y system awyru wedi'i chomisiynu yn unol â phroses a ddisgrifir yn Nogfen Gymeradwy F (a'r Canllaw Cydymffurfio Awyru Domestig sy'n ei hategu). Mae hyn ond yn gymwys i systemau awyru mecanyddol y gellir eu profi a'u haddasu, er enghraifft systemau awyru parhaus a systemau cyflenwi ac echdynnu mecanyddol, ond nid i ffaniau echdynnu ysbeidiol. Nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu canlyniadau unrhyw brofion cyfradd llif aer sy'n ofynnol o dan Reoliad 42 ar gyfer anheddau newydd yn unig ac mae'n gymwys i bob math o system awyru fecanyddol barhaus ac ysbeidiol.

3.14 Ystyrir y dylai systemau awyru mecanyddol newydd neu estynedig a osodir fel rhan o waith ôl-osod fod yn destun yr un trylwyredd â systemau a osodir mewn anheddau newydd. Cynigir y dylid ymestyn Rheoliad 42 i gynnwys adeiladau presennol er mwyn sicrhau bod profion cyfradd llif aer yn cael eu cynnal ar bob system awyru fecanyddol newydd neu estynedig a bod y canlyniadau yn cael eu darparu i'r corff rheoli adeiladu. Noder na fydd hyn yn gymwys os caiff ffan ysbeidiol newydd ei osod yn lle un presennol (h.y. ailosod ar sail tebyg am debyg).

3.15 Mae'n bwysig cadarnhau bod y cyfraddau llif aer a ddyluniwyd yn cael eu darparu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth awyru yn ddigonol. At hynny, o ystyried y canllawiau newydd ar y darpariaethau awyru angenrheidiol i ategu gwaith ôl-osod i wella effeithlonrwydd ynni, disgwylid i systemau awyru mecanyddol gael eu gosod yn amlach.

**Ychwanegu ystafell gyfanheddol (heb gynnwys heulfan) at annedd bresennol**

3.16 Mae'r Ddogfen Gymeradwy yn argymell darpariaethau awyru pan gaiff cartref ei ymestyn. Cynigir y dylid diwygio'r canllawiau yn benodol pan fo'r ystafell ychwanegol wedi'i chysylltu ag ystafell gyfanheddol bresennol ac, ar ôl y gwaith adeiladu, y dylai fod gan yr ystafell gyfanheddol bresennol ffenestri ar y tu allan o hyd ag arwynebedd awyru cefndir o 5000mm2 o leiaf. Os felly, fel ar hyn o bryd, dylai fod (i) awyryddion cefndir rhwng y ddwy ystafell a (ii) awyryddion cefndir rhwng yr ystafell ychwanegol a'r tu allan. Cynigir y dylid cynyddu maint yr awyryddion cefndir hyn o arwynebedd gofynnol o 8000mm2 i 10000mm2 yn y ddau achos er mwyn darparu system awyru ychwanegol.

3.17 Noder bod y canllawiau ar gyfer sefyllfaoedd eraill, lle yr ychwanegir ystafell gyfanheddol (gan gynnwys heulfan) neu ystafell wlyb at annedd bresennol, yn cyfeirio, ar y cyfan, at ganllawiau ar gyfer anheddau newydd. Cynigir y dylid parhau i gyfeirio at y canllawiau ar gyfer anheddau newydd mewn sefyllfaoedd o'r fath ac, felly, bydd unrhyw ddiwygiadau a wneir ar gyfer anheddau newydd yn effeithio ar y darpariaethau awyru a argymhellir.

**Adnewyddu cegin neu ystafell ymolchi**

3.18 Mae'r Ddogfen Gymeradwy yn cynnig opsiynau ar gyfer darpariaethau awyru pan ychwanegir ystafell wlyb at annedd bresennol. Os mabwysiedir system echdynnu ysbeidiol, argymhellir awyrydd cefndir ag arwynebedd o 4000m2 bellach o gymharu â 2500mm2 ar hyn o bryd, er mwyn darparu system awyru ychwanegol.

**Safonau awyru sy'n seiliedig ar berfformiad**

3.19 Asesodd ymgynghoriad Cam 1 y tybiaethau sylfaenol ar gyfraddau awyru yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Nid yw Atodiad B (Awyru sy'n seiliedig ar berfformiad) o'r Ddogfen Gymeradwy ddrafft F wedi newid ers Cam 1 ac felly nid ydym yn gwahodd unrhyw sylwadau pellach yn yr ymgynghoriad hwn.

**Cwestiwn 16**

| **A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer darpariaethau awyru wrth osod mesurau effeithlonrwydd ynni fel y'i nodir yn Adran 3?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 17**

| **A ydych yn cytuno â'r cynnig yn Adran 3 y dylid cynnwys systemau awyru ychwanegol wrth osod ffenestri newydd yn lle rhai presennol nad oes ganddynt awyryddion cefndir neu os nad yw maint yr awyryddion cefndir yn y ffenestr bresennol yn hysbys?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 18**

| **A ydych yn cytuno â'r newidiadau a gynigir yn Adran 3 ar gyfer darpariaethau awyru wrth ychwanegu ystafell gyfanheddol newydd (heb gynnwys heulfan) at annedd bresennol?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 19**

| **A ydych yn cytuno â'r newidiadau a gynigir yn Adran 3 ar gyfer darpariaethau wrth Adnewyddu cegin neu ystafell ymolchi?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 20**

| **A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid profi systemau awyru mecanyddol (gan gynnwys systemau awyru parhaus ac ysbeidiol) pan gânt eu gosod mewn cartrefi presennol?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

# Pennod 4. Newidiadau i Ran L ar gyfer Adeiladau Annomestig

**Cefndir**

4.1 Fel y disgrifir ym mharagraff XX, mae'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (EPBD) wedi'i diwygio'n ddiweddar[11]. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi nodi cynigion i gysoni â'r newidiadau diweddaraf i'r gofynion yn y Gyfarwyddeb ar gyfer adeiladau newydd a phresennol, yn y meysydd canlynol:

- Dyfeisiau hunanreoleiddio
- Systemau awtomeiddio a rheoli adeiladau
- Systemau adeilad technegol

4.2 Fel yr esbonnir yn yr adran ystyriaethau pellach ar dudalen 3, bydd ein hymgynghoriad 2B yn y dyfodol yn darparu cynigion llawn i wella effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau annomestig. Bydd yr ymgynghoriad hwn ond yn ystyried diwygiadau dros dro er mwyn cysoni â'r fersiwn ddiwygiedig o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau.

Dyfeisiau hunanreoleiddio

4.3 Mae dyfais hunanreoleiddio yn ddyfais neu'n system sy'n rheoli allbwn allyrwyr gwresogi a/neu oeri yn awtomataidd er mwyn rheoli'r tymheredd ym mhob ystafell yn annibynnol, (neu, pan fo cyfiawnhad dros hynny, ardal wresogi a/neu oeri) lle y caiff systemau gwresogi a/neu oeri eu darparu gan wasanaeth adeilad sefydlog.12

4.4 Er mwyn cysoni â thrydydd paragraff erthygl 8(1) o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (UE) 2018/844, rydym yn bwriadu cyflwyno rheoliad newydd yn Rheoliadau Adeiladu 2010 fel a ganlyn

- er mwyn sicrhau, pan gaiff adeilad ei godi, fod yn rhaid iddi gynnwys dyfeisiau hunanreoleiddio ar gyfer rheoleiddio'r tymheredd ym mhob ystafell neu ardal wresogi ddynodedig o'r uned adeiladu ar wahân, pan fo'n dechnegol ac yn economaidd ddichonadwy.
- er mwyn sicrhau, pan gaiff generadur gwres newydd, megis boeler, ei osod yn lle'r un presennol mewn adeilad presennol, fod yn rhaid iddi gynnwys dyfeisiau hunanreoleiddio ar gyfer rheoleiddio'r tymheredd ym mhob ystafell neu ardal wresogi ddynodedig o'r uned adeiladu ar wahân, pan fo'n dechnegol ac yn economaidd ddichonadwy.

---

[11] CYFARWYDDEB PERFFORMIAD YNNI ADEILADAU (UE) 2018/844 SENEDD EWROP A'R CYNGOR dyddiedig 30 Mai 2018 sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2010/31/EU ar berfformiad ynni adeiladau a Chyfarwyddeb 2012/27/EU ar effeithlonrwydd ynni

[12] Mae ardal wresogi a/neu oeri yn rhan o adeilad sydd wedi cael ei thrin (h.y. rhan o adeilad â system wresogi neu system oeri neu'r ddwy) a leolir ar un llawr ac sydd â gofynion o ran paramedrau thermol homogenaidd a rheoleiddio tymereddau homogenaidd. Gall hyn gynnwys mannau cyfagos nad ydynt wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth ei gilydd.

4.5 Ffordd gyffredin o fodloni'r gofyniad hwn yn ymarferol fyddai gosod thermostatau ym mhob ystafell er mwyn rheoli'r broses o gynhesu ac oeri'r allyrwyr yn yr ystafell honno yn annibynnol. Yn aml, mae'r rhain eisoes wedi'u gosod fel arfer safonol.

4.6 Darperir canllawiau a awgrymir ar gyfer adeiladau annomestig yn y diwygiadau drafft i Ddogfen Gymeradwy L2A ac L2B sy'n ategu'r pecyn ymgynghori hwn.

Systemau awtomeiddio a rheoli adeiladau

4.7 Mae system awtomeiddio a rheoli adeilad yn derm a ddefnyddir ar gyfer system ganolog a osodir i fonitro a rheoli amgylchedd a gwasanaethau adeilad h.y. ei systemau gwresogi, awyru, aerdymheru a goleuadau a systemau eraill (megis larymau diogelwch a lifftiau).

4.8 Er mwyn cysoni ag erthyglau 8(1), 14(4) a 15(4) o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (UE) 2018/844, rydym yn bwriadu cyflwyno rheoliad newydd yn Rheoliadau Adeiladu 2010 fel a ganlyn:

- Os bydd gan adeilad newydd system wresogyddion neu system aerdymheru â chyfradd allbwn effeithiol sy'n cyfateb i 290 kW neu sy'n fwy na hynny, bydd yn rhaid gosod system awtomeiddio a rheoli adeilad yn unol â manylebau a nodir isod.
- Os bydd gan adeilad presennol system wresogyddion neu system aerdymheru â chyfradd allbwn effeithiol sy'n cyfateb i 290 kW neu sy'n fwy na hynny, bydd yn rhaid i system awtomeiddio newydd sy'n cael ei gosod yn lle'r un bresennol neu system awtomeiddio a rheoli adeilad sy'n cael ei gosod fodloni'r manylebau isod.

4.9 Mae'n rhaid i system awtomeiddio a rheoli adeilad a osodir mewn adeilad newydd neu bresennol i fodloni'r gofynion yn y paragraff uchod allu cyflawni pob un o'r swyddogaethau canlynol.

a. Mae'n cydymffurfio'n llawn ag **EN ISO 16484.**
b. Mae'n monitro, yn cofnodi ac yn dadansoddi'r defnydd o ynni ac yn addasu ar ei gyfer yn barhaus.
c. Mae'n meincnodi effeithlonrwydd ynni'r adeilad, yn nodi colledion o ran effeithlonrwydd systemau adeilad technegol ac yn hysbysu'r person sy'n gyfrifol am reoli'r cyfleusterau neu'r adeilad am gyfleoedd i wella effeithlonrwydd ynni.
d. Gall gyfathrebu â systemau adeilad technegol cysylltiedig a dyfeisiau eraill y tu mewn i'r adeilad a rhyngweithredu â systemau adeilad technegol ar draws gwahanol fathau o dechnolegau masnachol, dyfeisiau a gwneuthurwyr.

**NODER:** Byddai system debyg i un â Gradd Dosbarth A **BS EN 15232** yn bodloni'r gofynion hyn.

4.10 Pan gaiff system awtomeiddio a rheoli adeilad ei gosod, yn ogystal â bodloni'r gofynion uchod, dylai ei galluoedd rheoli fod yn briodol i'r adeilad, y defnydd y disgwylir ei wneud ohoni, gwybodaeth dechnegol ddisgwyliedig defnyddiwr y

system awtomeiddio a rheoli adeilad a manyleb y gwasanaethau adeilad. Dylai'r system fod o faint priodol.

4.11 Darperir canllawiau a awgrymir ar gyfer adeiladau annomestig yn yr atodiad drafft i Ddogfen Gymeradwy L2A ac L2B sy'n ategu'r pecyn ymgynghori hwn.

Systemau cynhyrchu trydan ar y safle

4.12 Er mwyn cysoni ag erthygl 8(1) o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (UE) 2018/844, rydym yn bwriadu cyflwyno safonau gofynnol newydd (effeithlonrwydd a rheolaethau) pan gaiff system cynhyrchu trydan ar y safle ei gosod mewn adeilad. Darperir canllawiau a awgrymir ar gyfer adeiladau annomestig yn y fersiwn ymgynghori ddrafft o Ddogfen Gymeradwy L2A ac L2B.

4.13 Bydd yn rhaid darparu gwybodaeth am berfformiad ynni'r system i berchennog yr adeilad hefyd.

Perfformiad Ynni Systemau Adeilad Technegol

4.14 Mae system adeilad dechnegol yn derm a ddefnyddir ar gyfer gwasanaeth adeilad sefydlog (megis cyfarpar gwresogi gofod, oeri gofod, awyru, dŵr poeth domestig, goleuadau), systemau awtomeiddio a rheoli adeilad, cyfleusterau cynhyrchu trydan ar y safle neu gyfuniad o'r rhain.

4.15 Er mwyn cysoni â Rheoliad 40 sy'n bodoli eisoes, ac erthygl newydd 8(9) o'r Gyfarwyddeb Perfformiad Ynni Adeiladau (UE) 2018/844, rydym yn bwriadu cyflwyno rheoliad newydd yn Rheoliadau Adeiladu 2010 a fydd yn nodi, pan gaiff System Adeilad Dechnegol ei gosod mewn adeilad annomestig newydd neu bresennol, fod yn rhaid asesu a dogfennu perfformiad ynni'r systemau adeilad technegol.

4.16 Darperir canllawiau a awgrymir ar gyfer adeiladau annomestig yn yr atodiad drafft i Ddogfen Gymeradwy L2A ac L2B sy'n ategu'r pecyn ymgynghori hwn.

Systemau amgen effeithlonrwydd uchel

4.17 Mae Rheoliad 25A o'r Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n ymgymryd â'r gwaith, cyn dechrau adeiladwaith adeilad newydd, gynnal dadansoddiad sy'n ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol technegol, amgylcheddol a dichonoldeb economaidd o ddefnyddio systemau amgen effeithlonrwydd uchel yn yr adeiladwaith. Rydym yn cynnig diwygio'r gofynion presennol i gyd-fynd ag Erthygl 6 ddiwygiedig EPBD (UE) 2018/844 drwy ddileu'r rhestr o systemau enghreifftiol. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn newid polisi gan fod cynnal y dadansoddiad dal yn ofynnol.

4.18 Mae Dogfen Gymeradwy L2B yn rhoi arweiniad pan fydd adeilad yn cael ei adnewyddu'n sylweddol, fod yn gyfle i ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol technegol, amgylcheddol a dichonoldeb economaidd o osod systemau amgen effeithlonrwydd uchel. I gyd-fynd ag Erthygl 7 o EPBD (UE) 2018/844, rydym hefyd

wedi ychwanegu y gallai hyn hefyd fod yn gyfle i ystyried amodau dan do iach, diogelwch tân a risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd seismig dwys.

**Cwestiwn 21**

| **A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Dyfeisiau Hunanreoledig fel y'i nodir yn Adran 11 (Dogfen Cymeradwy L2A) ac Adran 15 (Dogfen Cymeradwy L2B)?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 22**

| **A ydych yn cytuno â'r manylebau arfaethedig ar gyfer Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladau (BACS) fel y'u nodir yn Adran 11 (Dogfen Cymeradwy L2A) ac Adran 15 (Dogfen Cymeradwy L2B)?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 23**

| **A ydych yn cytuno â'r safonau newydd arfaethedig ar gyfer Systemau Awtomeiddio a Rheoli Adeiladau (BACS) a Systemau Cynhyrchu Trydan ar y Safle fel y'u nodir yn Adran 11 (Dogfen Cymeradwy L2A) ac Adran 15 (Dogfen Cymeradwy L2B)?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 24**

| **A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i Systemau Adeilad Technegol gael eu hasesu ac i wybodaeth amdanynt gael ei darparu fel y'i nodir yn 7 (Dogfen Cymeradwy L2A) ac Adran 14 (Dogfen Cymeradwy L2B)?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

# Pennod 5. Lleihau'r Risg o Orgynhesu mewn Anheddau Newydd

**Cefndir**

5.1 Mae gorgynhesu mewn cartrefi yn digwydd pan fydd yr amgylchedd thermol dan do lleol yn creu amodau sy'n fwy na'r rhai sy'n dderbyniol er mwyn sicrhau cysur thermol pobl neu'r rhai a allai gael effaith andwyol ar iechyd pobl.

5.2 Nodwyd bod gorgynhesu mewn adeiladau yn risg allweddol i iechyd a chynhyrchiant pobl a busnesau yn y DU. Amcangyfrifir bod tua 2,000 o farwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr. Disgwylir i'r nifer hwn dreblu i fwy na 7,000 erbyn canol y ganrif, o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd[13].

5.3 Ymchwil a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) er mwyn asesu'r risg o orgynhesu mewn cartrefi newydd yn Lloegr. Dangosodd gwaith modelu thermol dynamig fod pob teipoleg o annedd yr ymchwiliwyd iddi (gan gynnwys tai a fflatiau) a werthuswyd ledled pum lleoliad daearyddol wedi methu â chydymffurfio â meini prawf gorgynhesu. Roedd y graddau yr oedd anheddau yn uwch na'r meini prawf yn amrywio'n sylweddol yn ôl teipoleg a lleoliad14.

5.4 Fel rhan o'r adolygiad hwn, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil er mwyn ymestyn astudiaeth y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i gynnwys cartrefi newydd yng Nghymru.

- Cynhaliwyd yr asesiad yn unol â methodoleg TM59 CIBSE.
- Defnyddiwyd data'r tywydd yn y dyfodol o Gaerdydd, gan gydnabod y gallai hyn gynrychioli achos rhesymol waeth.
- Bwriedir i ddata'r tywydd a fabwysiadwyd gynrychioli'r cyfnod rhwng 2011 a 2040 ac mae'n cynrychioli tybiaethau penodol ynglŷn â newid yn yr hinsawdd (allyriadau uchel, senario 50 canradd) yn unol â methodoleg TM59 CIBSE. Y nod yw cynrychioli haf eithaf cynnes (h.y. cynhesach na blwyddyn nodweddiadol) gyda phosibilrwydd o 1 mewn 7 y ceir tywydd tebyg.
- Aseswyd y risg o orgynhesu yn seiliedig ar 'adeiladau Categori I'. Golyga hyn fod yr ymchwil yn tybio bod yr anheddau yn debygol iawn o fod yn cael eu meddiannu gan bobl fregus sy'n agored i niwed. Gall meddiannydd cyntaf neu ddilynol yr annedd berthyn i'r categori hwn. O ganlyniad, mae'r meini prawf risg yn llymach.

5.5 Dangosodd yr ymchwil hon fod dau fath o annedd yn wynebu risg benodol

   a. Fflatiau – oherwydd ffactorau cynhenid sy'n cyfyngu ar y broses o ddileu enillion gwres (llai o effaith 'stac' sy'n tynnu aer oerach o'r tu allan i mewn

---

13 https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2015/06/6.736_CCC_ASC_Adaptation-Progress-Report_2015_FINAL_WEB_250615_RFS.pdf

14 https://www.gov.uk/government/publications/research-into-overheating-in-new-homes

drwy agoriadau ar lawr is ac yn ei gwneud yn bosibl i aer mewnol cynhesach godi allan o'r adeilad)

b. Cartrefi, yn fwy cyffredinol, nad oes ganddynt systemau croes-awyru digonol i ddileu enillion gwres.

**Rheoliadau Adeiladu**

5.6 Mae Rhan L1(a)(ii) o'r Rheoliadau Adeiladu eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaethau gael eu gwneud er mwyn cyfyngu ar enillion gwres mewn adeiladau. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i anelu at leihau'r defnydd o ynni ac osgoi allyriadau CO2 sy'n gysylltiedig ag oeri gweithredol yn unig, yn hytrach na'r risgiau i iechyd a chysur meddianwyr.

5.7 Cynigir y dylid cyflwyno rhan newydd o'r Rheoliadau Adeiladu (sef Rhan S) a fydd yn canolbwyntio ar y risg o orgynhesu. Bydd yn cynnwys dau ofyniad, sef:

*(1) Caiff anheddau eu dylunio a'u hadeiladu mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o orgynhesu yn yr haf i lefel resymol*
*(2) bydd unrhyw fesurau lliniaru yn ddiogel ac yn rhesymol ymarferol i feddianwyr.*

a rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu i'r perchennog:

*Bydd y person sy'n gwneud y gwaith, o fewn pum diwrnod ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, yn rhoi digon o wybodaeth i'r perchennog am unrhyw system(au) a ddefnyddir gan yr adeilad i leihau'r risg o orgynhesu a gofynion cynnal a chadw'r system honno/systemau hynny er mwyn iddi/iddynt allu cael ei gweithredu/eu gweithredu'n effeithiol mewn ffordd ymarferol a diogel.*

5.8 Mae hyn yn ategu Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu am mai'r dull a ffefrir ar gyfer lleihau'r risg o orgynhesu yw drwy ddefnyddio dull goddefol hyd y gellir. Mae hyn yn cyd-fynd â bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth er mwyn mabwysiadu targed i leihau allyriadau carbon o 95% erbyn 2050.

5.9 Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar anheddau. Y bwriad yw ystyried ymestyn Rhan S i gynnwys adeiladau preswyl eraill, megis cartrefi gofal a llety myfyrwyr, y tro nesaf y caiff Rhan L ar gyfer adeiladau annomestig ei hadolygu (ymgynghoriad Cam 2B).

**Asesu cydymffurfiaeth â Gofyniad S1**

5.10 Yn seiliedig ar y gwaith modelu a nodwyd uchod, a oedd yn ymwneud yn benodol â Chymru, tybir bod llawer o gartrefi newydd yn cydymffurfio'n ddigonol â'r Gofyniad newydd hwn heb fod angen cyflwyno unrhyw fesurau lliniaru penodol

5.11 Felly, mae'r canllawiau yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy S (sy'n ategu'r ymgynghoriad hwn) yn canolbwyntio ar ddau fath o annedd, sef:

- Fflatiau

- Tai (e.e. tai teras, tai pâr a thai ar wahân, byngalos) nad oes ganddynt ddwy wedd gyfochrog neu fwy i hwyluso croes-awyru.

5.12 Cynigir dau ddull gweithredu amgen er mwyn dangos cydymffurfiaeth ar gyfer y ddau fath hyn o annedd

- Dull syml sy'n nodi mesurau lliniaru penodol
- Dull dadansoddi thermol dynamig

5.13 Mae'r dull cyntaf yn broses syml a rhad, nad yw'n gofyn am unrhyw waith modelu ychwanegol. Mae'r ail ddull yn cynnig ffordd amgen fwy hyblyg o ddangos cydymffurfiaeth drwy ddefnyddio gwaith modelu thermol dynamig.

Y dull syml

5.14 Datblygwyd y dull syml gan ddefnyddio canlyniadau wedi'u modelu o waith dadansoddi thermol dynamig (rhan o'r gwaith ymchwil a wnaed gan Llywodraeth Cymru a ddisgrifiwyd uchod). Mae'n darparu dulliau rhagnodol o leihau'r risg o orgynhesu a gafwyd o waith dadansoddi thermol dynamig sy'n dangos bod y mesurau hyn yn bodloni meini prawf TM59 CIBSE ar gyfer y risg o orgynhesu.

5.15 Cyflwynir y canllawiau yn y fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy S mewn dau dabl, y dylid dilyn y ddau ohonynt.

- Mae'r tabl cyntaf yn nodi opsiynau amgen i leihau enillion solar. Mae'r atebion yn cynnwys pennu'r arwynebeddau mwyaf a ganiateir ar gyfer ffenestri gwydr er mwyn lleihau enillion solar yn yr haf; y tîm dylunio fydd yn gyfrifol am sicrhau bod lefelau digonol o olau dydd yn cael eu darparu o hyd os defnyddir yr arwynebeddau mwyaf a ganiateir ar gyfer ffenestri gwydr. Rydym yn cydnabod bod ffenestri mwy o faint yn un o bwyntiau gwerthu cartrefi newydd ac, felly, cynigir opsiynau amgen o ran arwynebeddau ffenestri gwydr.
- Mae'r ail dabl yn ymwneud ag ardaloedd sy'n agor ar gyfer gwaredu gwres. Gellir gwaredu gwres drwy ddefnyddio cyfuniad o ffenestri y gellir eu hagor a lwfrau awyru.

Y dull dadansoddi thermol dynamig

5.16 Ar hyn o bryd, defnyddir Atodiad P SAP yn Rhan L i asesu a yw'r dyluniad yr annedd wedi cyfyngu'n ddigonol ar effeithiau enillion gwres yn yr haf. Er yr ystyrir bod y dull hwn o weithredu yn ddigonol at ddibenion asesu’r defnydd o ynni, mae i fethodoleg SAP gyfyngiadau o ran rhagweld amlder a dwysedd cyfnodau o dymheredd mewnol uwch ac, felly, y risg o orgynhesu mewn anheddau.

5.17 Mae'r dull dadansoddi thermol dynamig yn defnyddio methodoleg Dylunio TM59 CIBSE ar gyfer asesu'r risg o orgynhesu mewn cartrefi i ddangos cydymffurfiaeth. Mae hyn yn gofyn am ddefnyddio gwaith modelu thermol dynamig yn hytrach na SAP.

5.18 Mae'r dull hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd dylunio i'r datblygwr na'r dull syml. Mae'r dull hwn yn defnyddio lleoliad yr annedd, priodweddau deunyddiau, arwynebeddau a chyfeiriad ffenestri, cyfraddau cyfnewid aer a senario meddiannaeth rhagnodedig i gyfrifo'r risg o orgynhesu. Mae'n rhoi mwy o hyblygrwydd wrth ddewis mesurau lliniaru risg i fodloni'r meini prawf gorgynhesu, gan flaenoriaethu mesurau goddefol ar yr un pryd.

5.19 Dim ond os gellir dangos bod yr holl fesurau goddefol rhesymol wedi'u defnyddio ac nad ydynt yn lleihau'r risg o orgynhesu yn ddigonol y gellir defnyddio mesurau gweithredol megis aerdymheru. Dylai'r broses hon o ddangos cydymffurfiaeth gynnwys manylion y gwahanol gyfuniadau o fesurau goddefol a aseswyd yn ystod y gwaith modelu a'r rheswm/rhesymau pan nad ydynt yn ddigonol, gan gynnwys sut y gwnaethant berfformio yn erbyn meini prawf TM59 CIBSE.

5.20 Mae'r fersiwn ddrafft o Ddogfen Gymeradwy S yn nodi tybiaethau modelu y dylid eu defnyddio pan fabwysiedir y dull hwn. Mae hyn yn cynnwys defnyddio meini prawf llymach TM59 CIBSE bob amser ar gyfer meddianwyr sy'n fwy agored i niwed, ac mae'n darparu proffiliau fffenestri y dylid eu defnyddio.

5.21 Cynigir, lle y mabwysiedir y dull Dadansoddi Thermol Dynamig, y dylai'r unigolyn sy'n gwneud y gwaith hwn fod yn gymwys ac wedi'i hyfforddi'n briodol i ymgymryd â gwaith modelu thermol dynamig er mwyn asesu'r risg o orgynhesu (e.e. Asesydd Ynni Carbon Isel (LCEA) Lefel 5) ac y dylai ddilyn y gweithdrefnau a nodir ym methodoleg Dylunio TM59 CIBSE ar gyfer asesu'r risg o orgynhesu mewn cartrefi. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gymhwyster presennol yn y DU sy'n ymwneud yn benodol â gwaith modelu thermol dynamig i asesu'r risg o orgynhesu. Fodd bynnag, mae LCEA Lefel 5 yn awgrymu bod gan yr unigolyn wybodaeth am ffiseg adeiladu a'r gallu i ddefnyddio meddalwedd modelu thermol dynamig sy'n addas ar gyfer y math hwn o asesiad.

**Asesu cydymffurfiaeth â Gofyniad S2**

<u>Cyfyngu ar sŵn a llygredd aer</u>

5.22 Mae sŵn allanol a llygredd aer yn ystyriaethau perthnasol wrth wneud cais am ganiatâd cynllunio. Efallai y bydd angen cynnwys mesurau lliniaru yn y cynllun er mwyn cael caniatâd cynllunio, a gaiff eu rheoli drwy amod a osodir ar y caniatâd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, y defnydd o ffenestri na ellir eu hagor a allai gyfyngu ar allu meddianwyr i awyru cartrefi er mwyn leihau'r risg o orgynhesu yn yr haf.

5.23 Bydd angen i unrhyw fesurau a gynigir ar gyfer lleihau'r risg o orgynhesu yn y Rheoliadau Adeiladu gydnabod unrhyw gyfyngiadau o'r Caniatâd cynllunio (e.e. ffenestri na ellir eu hagor) a hefyd unrhyw asesiadau acwstig/asesiadau o ansawdd aer a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r Cais cynllunio. Noder, yn dibynnu ar unrhyw gyfyngiadau, y gallai ei gwneud yn fwy anodd cydymffurfio â'r dull syml ac y gallai fod yn well mabwysiadu'r dull dadansoddi thermol dynamig er mwyn nodi atebion amgen.

5.24 Cynigir bod y System gynllunio yn ymdrin yn ddigonol â lefelau sŵn a phroblem llygredd aer allanol yn mynd i mewn i adeiladau ac y bydd unrhyw amodau a osodir ar y cydsyniad angen cael ei ystyried wrth ddylunio ar gyfer mesurau lliniaru. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch a ddylid ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol o ran acwsteg/ansawdd aer.

Diogelwch

5.25 Gall pryderon ynghylch diogelwch gyfyngu ar y defnydd o ffenestri y gellir eu hagor. Gall materion diogelwch hefyd fod yn gysylltiedig â mesurau i leihau'r risg o orgynhesu, megis delltiau awyru neu gaeadau lwfrog. Mae'n rhaid ystyried y risgiau technegol hyn ochr yn ochr â'r ystyriaethau dylunio sy'n cael eu cynnig er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau yn Nogfen Gymeradwy S.

5.26 Mae pryderon ynghylch diogelwch yn cynnwys, er enghraifft, y risg o gwympo o fan uchel drwy agoriadau mawr neu'r risg y caiff rhannau o'r corff eu dal mewn delltiau ac ati. Gellir defnyddio giardiau ffenestri neu gyfyngwyr ffenestri a ddyluniwyd yn unol â Rhan K a Rhan N o'r Rheoliadau Adeiladu i atal pobl rhag cwympo. Gellir defnyddio nodweddion megis rheiliau ffenestri neu gaeau lwfrog i ddiogelu agoriadau mawr. Noder, pan ddefnyddir cyfyngwyr ffenestri fel nodwedd diogelwch, y bydd y rhain yn lleihau gofod gwag yr agoriad ac, yn eu tro, y cyfraddau awyru a sicrheir.

5.27 Gall agoriadau mwy o faint beri risg ddiogelwch o ddwyn a byrgleriaeth. Lle y gellir mynd i mewn i adeiladau yn hawdd drwy ffenestri, megis yn achos ystafelloedd ar y llawr gwaelod, efallai na fydd meddianwyr yn teimlo’n ddiogel yn gadael y rhain ar agor dros nos. Mae'r dull syml, a'r tybiaethau modelu y dylid eu defnyddio ar gyfer y dull dadansoddi thermol dynamig, yn seiliedig ar ddarparu system awyru ddigonol i waredu gwres pan fydd ffenestri ond ar agor mewn ystafelloedd cyfannedd yn ystod y dydd a phan fydd ffenestri ond ar agor gyda chyfyngwyr mewn ystafelloedd gwely dros nos. Felly, mae'r dull a fabwysiadwyd er mwyn lleihau'r risg o orgynhesu wedi ceisio cyfrif am bryderon ynghylch diogelwch.

5.28 Cynigir bod y Rheoliadau Adeiladu presennol, ynghyd â'r tybiaethau i ategu'r strategaeth ar gyfer lleihau'r risg o orgynhesu, yn ymdrin yn ddigonol â materion iechyd a diogelwch ac y bydd angen ystyried y rhain wrth ddylunio ar gyfer mesurau lliniaru. Fodd bynnag, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch a ddylid ystyried unrhyw ffactorau ychwanegol o ran diogelwch.

**Darparu gwybodaeth am leihau'r risg o orgynhesu**

5.29 Pan gaiff annedd newydd ei hadeiladu, mae'n rhaid rhoi gwybodaeth am unrhyw systemau a ddefnyddir gan yr adeilad i leihau'r risg o orgynhesu i berchennog yr adeilad.

**Cwestiwn 25**

| A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid canolbwyntio ar fflatiau a thai nad oes ganddynt ddwy wedd gyfochrog neu fwy i hwyluso croes-awyru? | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 26**

| A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid mabwysiadu dull gweithredu syml sy'n rhoi canllawiau rhagnodol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar waith dadansoddi thermol dynamig er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd? | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 27**

| A ydych yn cytuno â'r canllawiau rhagnodol ar gyfer y dull gweithredu syml y bwriedir iddo reoli enillion solar a darparu systemau awyru er mwyn gwaredu gwres o'r cartref? | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 28**

| A ydych yn cytuno â'r canllawiau a ddarparwyd ar gyfer y gwaith dadansoddi thermol dynamig? | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 29**

| **A ydych yn cytuno â'r wybodaeth y cynigir y dylai fod gan unigolion er mwyn ymgymryd â'r gwaith modelu thermol dynamig?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam ac awgrymwch ganllawiau amgen er mwyn helpu i sicrhau bod y gwaith modelu yn cael ei wneud gan unigolyn sy'n gymwys i wneud hynny. | |

**Cwestiwn 30**

| **A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylid dangos bod yr holl fesurau goddefol rhesymol wedi'u defnyddio cyn cynnwys mesurau gweithredol? Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam ac awgrymwch ganllawiau amgen.** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 31**

| **A ydych yn cytuno yr ymdrinnir â materion sy'n ymwneud â sŵn allanol a llygredd aer, a all effeithio ar y defnydd o fesurau lliniaru (e.e. agor ffenestri) yn ddigonol dwy'r System gynllunio?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

**Cwestiwn 32**

| **A ydych yn cytuno bod Rhannau presennol o'r Rheoliadau Adeiladu yn ddigonol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch sy'n gysylltiedig â defnyddio ffenestri y gellir eu hagor i reoli gorgynhesu?** | |
|---|---|
| a. Ydw | |
| b. Nac ydw | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

# Pennod 6. Trefniadau Trosiannol

**Cefndir**

6.1 Pryd bynnag y caiff newidiadau eu gwneud i'r Rheoliadau Adeiladau neu'r safonau cymeradwy, mae trefniadau trosiannol yn gymwys. Pan fydd datblygwr yn cyflwyno hysbysiad adeiladu neu gais cynlluniau llawn i'r awdurdod lleol, bydd safonau'r Rheoliadau Adeiladu sydd ar waith pan gyflwynir y cais yn gymwys, ar yr amod bod gwaith o dan yr hysbysiad adeiladu neu'r cais cynlluniau llawn eisoes wedi dechrau neu y bydd yn dechrau o fewn cyfnod penodol i'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad.

6.2 Esboniodd ymgynghoriad Cam 1 ein hegwyddorion i gyflwyno set lymach o ofynion trosiannol yn 2020 er mwyn sicrhau na fydd datblygwyr yn parhau i adeiladu cartrefi i hen safonau effeithlonrwydd ynni am fwy o amser nag sy'n briodol. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol iawn o drefniant trosiannol llymach.

6.3 Ar ôl ystyried yr ymatebion, yn ein barn ni, mae cyfnod o ddwy flynedd ar gyfer darpariaethau trosiannol yn rhesymol. Nod y darpariaethau trosiannol yw lleihau'r risg y bydd datblygwyr yn parhau i adeiladu i safonau effeithlonrwydd ynni hŷn am fwy o amser nag sy'n briodol. Mae'r ymgynghoriad Cam 2A hwn bellach yn cynnig manylion ychwanegol a chynnig pendant ar gyfer darpariaethau trosiannol newydd.

**Darpariaethau trosiannol anheddau newydd yn 2021 ar gyfer Rhan L a Rhan S Lleihau'r risg o orgynhesu**

6.4 Os bydd hysbysiad adeiladu, hysbysiad cychwynnol neu gynlluniau llawn adneuo wedi cael ei gyflwyno/eu cyflwyno i'r corff rheoli adeiladu cyn i ddiwygiadau Rhan L a Rhan S 2021 ddod i rym, rydym yn cynnig mai dim ond i adeiladau unigol y mae gwaith adeiladu wedi dechrau arnynt o fewn cyfnod rhesymol y dylai'r trefniadau trosiannol fod yn gymwys. Rydym yn cynnig bod y cyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad y daw diwygiadau Rhan L a Rhan S 2021 i rym, yn gyfnod rhesymol at y diben hwn.

6.5 Byddai hyn yn golygu y byddai'r darpariaethau trosiannol yn darparu:

(a) os bydd gwaith adeiladu ar adeilad unigol wedi dechrau yn unol ag unrhyw ddarpariaeth hysbysu berthnasol (hysbysiad bod gwaith adeiladu wedi dechrau) cyn y dyddiad y daw'r diwygiadau i Ran L a Rhan S i rym; neu
(b) os cydymffurfiwyd â darpariaeth hysbysu berthnasol mewn perthynas â gwaith adeiladu arfaethedig a bod gwaith ar yr adeilad unigol wedi dechrau o fewn dwy flynedd i'r dyddiad y daw'r rheoliadau i rym; neu
(c) os cyflwynwyd ceisiadau cyn 31 Gorffennaf 2014 a bod y gwaith adeiladu wedi dechrau erbyn 31 Gorffennaf 2015

na fyddai diwygiadau Rhan L na Rhan S 2021 yn gymwys.

6.6 Felly, os na fydd gwaith wedi dechrau ar annedd benodol a gwmpesir gan hysbysiad adeiladu presennol, hysbysiad cychwynnol neu gynlluniau llawn o fewn cyfnod o ddwy flynedd i'r dyddiad y daw diwygiadau Rhan L a Rhan S 2021 i rym, ni fyddai'r adeilad unigol hwnnw yn cael budd o'r darpariaethau trosiannol. O ganlyniad, byddai angen i waith adeiladu ar yr adeilad hwnnw (ac unrhyw adeiladau eraill a gwmpesir gan hysbysiad neu gynlluniau os nad yw'r gwaith wedi dechrau o fewn cyfnod o ddwy flynedd i'r dyddiad y daw'r ddeddfwriaeth i rym) gydymffurfio â diwygiadau Rhan L a Rhan S 2021. Nid effeithid ar hysbysiadau adeiladu na hysbysiadau cychwynnol presennol na cheisiadau cynlluniau llawn sydd eisoes yn cael budd o ddarpariaethau trosiannol a gymhwyswyd at newidiadau cynharach i safonau effeithlonrwydd ynni Rhan L (h.y. ceisiadau a gyflwynwyd cyn 31 Gorffennaf 2014 a dechreuodd y gwaith adeiladu erbyn 31 Gorffennaf 2015).

6.7 Mae hwn yn drefniant trosiannol llymach nag a fabwysiadwyd yn y gorffennol er mwyn ceisio sicrhau bod anheddau newydd yn cyrraedd safonau cyfredol. Er y gall hyn arwain at sefyllfa lle mae tai gwahanol yn yr un datblygiad yn cael eu hadeiladu i safonau gwahanol (h.y. Rhan L 2014 neu Ran L 2021), disgwyliwn y bydd hyn yn annog adeiladwyr tai i gwblhau datblygiadau yn gyflymach ar eu safleoedd.

**Cwestiwn 33**

| **A ydych yn cytuno na ddylai'r trefniadau trosiannol ar gyfer y newidiadau i'r gofynion o ran effeithlonrwydd ynni yn 2021 fod yn gymwys i adeiladau unigol os na fydd gwaith wedi dechrau o fewn dwy flynedd – sy'n golygu y byddai'n rhaid i'r adeiladau hynny gael eu codi i'r safon effeithlonrwydd ynni newydd?** | |
|---|---|
| a. Ydw – os bydd gwaith adeiladu wedi dechrau ar adeilad unigol o fewn dwy flynedd, dylai'r trefniadau trosiannol fod yn gymwys i'r adeilad hwnnw, ond nid i'r adeiladau hynny nad yw gwaith adeiladu wedi dechrau arnynt | |
| a. Nac ydw – dylai'r trefniadau trosiannol barhau i fod yn gymwys i'r holl waith adeiladu ar ddatblygiad, p'un a fydd gwaith adeiladu wedi dechrau ar adeiladau unigol ai peidio | |
| b. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |

# Pennod 7. Adborth ar yr Asesiad Effaith

7.1 Mae Rheoliadau Adeiladu yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y caiff ein hadeiladau eu codi a'u defnyddio. Felly, maent yn helpu i sicrhau manteision sylweddol i gymdeithas. Gall rheoleiddio hefyd osod costau ar fusnesau ac unigolion. Rydym wedi cyhoeddi Asesiad Effaith sy'n ystyried costau a manteision y newidiadau arfaethedig i'r Rheoliadau Adeiladu. Mae'r Asesiad Effaith yn rhan bwysig o'r ymgynghoriad ac anogir ymgyngoreion i ddarllen yr asesiad effaith ac ymateb i'r cwestiwn isod.

**Cwestiwn 34**

| **Mae'r Asesiad Effaith yn amcangyfrif effaith y cynigion unigol. Yn eich barn chi, a yw'r rhain yn rhoi asesiad teg o'r costau a'r manteision?** | |
|---|---|
| a. Ydyn | |
| b. Nac ydyn | |
| c. Ddim yn siŵr | |
| Os nad ydych yn cytuno, nodwch y rheswm pam a darparwch dystiolaeth i'w ategu. | |